



Cyflwyniad

Mae'n debyg bod aml i blentyn yn yr ardal hon yn y gorffennol wedi cael ei fygwth i'w anfon i'r llong fawr os yn blentyn drwg. Enw'r llong honno oedd y Clío, a dyma dipyn o'i hanes.

Cyrhaeddodd y Clío ar y Fenai ar ddydd Sadwrn, Awst 7fed, 1877 dan Gapten Moger RN o Gresffordd.

Pwrpas Y Clío

Roedd nifer o longau hyfforddi wedi eu gwasgaru o amgylch arfordir Prydain yn ystod ail hanner y 19eg ganrif. Pwrpas y Clío oedd i ddarparu bechgyn o gefndiroedd difreintiedig gyda'r sgiliau angenrheidiol i wynebu bywyd ar y môr.

Ariannwyd y prosiect i ddechrau drwy danysgrifiad yn ogystal a gweithredoedd megis Cyngherddau'r Llong Hyfforddi. Byddai arian pellach yn dod o'r ardal oedd yn anfon y bachgen i'r llong ac hefyd gan y Llynges a oedd yn ychwanegu swm i'r gronfa am bob bachgen a oedd yn ymuno â hwy.

Roedd sefydlu'r Clío, a llongau hyfforddi eraill yn deillio o'r angen i baratoi ysgolion diwygiadol ledled y wlad i fechgyn helbulus fyddai'n ymuno rhwng yr oedrannau o 12 i 16. Yr ail bwrpas oedd i geisio ymateb i'r prinder enbyd o forwyr ar gyfer y Llynges Frenhinol a'r Llynges Fasnachol.

Canran isel oedd y bechgyn lleol ar y Clío. Roedd David Livingstone Evans o Fangor yn un o'r rhai hyn. Wedi pledio yn euog yn 11½ mlwydd oed o ddwyn tair dol, pêl-droed a basged ffansi o Farchnad Bangor, cafodd ei yrru i'r Clío ar Fehefin 9fed 1908 i'w gadw yno nes cyrraedd 16 mlwydd oed. Dengys cyfrifiad 1881 mai dim ond 34 o'r 246 o fechgyn ar y llong oedd o Gymru.



Rhai o'r bechgyn ar fwrdd Y Clío
Gwersi ar y Clío



Gwregys achub oddi-ar Long
Hyfforddi y Clío



Y Clío ar y ffordd i gael ei thorri ger
pier Bangor - Mawrth 1920

Bywyd dyddiol ar y Clio

Roedd bywyd ar y Clio yn galed ac roedd yn hanfodol cael trefn ddyddiol fel bod modd cadw rheolaeth ar long oedd yn cartrefu oddeutu 200 i 300 o fechgyn. Byddai'r bechgyn yn cael eu rhannu'n ddwy garfan ('Watch'), sef y Chwith a'r Dde (byddai streipen goch ar y llewys chwith neu dde yn gwahaniaethu rhwng y ddwy).

O ddydd Llun i ddydd Gwener, byddai diwrnod bachgen ar y Clio yn dilyn y drefn hon:

5.30yb (haf) 6.00yb (gaeaf) Galwad ar y corn i'r bechgyn godi o'r gwely.

6.30yb Glanhau bwrdd y llong.

7.15yb Y cogyddion yn cael eu galw i fwrdd y llong i baratoi brecwast.

7.30yb Brecwast yn cael ei rannu.

8.00yb Cwch yn cael ei yrru i gasglu'r swyddogion o'r lan, glanhau'r gwaith pren a'r gwaith pres.

8.15yb Rhannu'r bechgyn ar gyfer arolygiad i'w ddilyn gan ymarferiadau byr.

9.15yb Gweddi.

9.30yb Cynulliad boreol yn yr ysgol i un garfan, y llall yn dilyn cyfarwyddiadau technegol, yn cynnwys tynnu cwch, clymu, arwyddo, cwmpawd, model llywio, gwneud hwyliau, nofio, teilwra, gwaith saer, gwaith crydd, ymarfer gwn a reiffl ac ymarferiadau i'r band

11.00yb Seibiant byr.

11.15yb Yn ôl i weithio.

1.00yh Cinio.

2.00yh Rhannu yn ôl i'r ddwy garfan yn cael eu cyfnewid ar gyfer y prynhawn.

Yn dilyn y gwersi ysgol a'r cyfarwyddiadau technegol, byddai'r bechgyn yn cymryd rhan mewn gemau, cyngherddau a gwaith cerfio pren. Byddai darlenniadau a darlithoedd yn pasio'r amser gyda'r nos. Anogwyd y bechgyn hefyd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon, boed hynny ar y llong, ar y lan ym Mangor neu yn y gwerysll blynyddol yn Llandudno.



Byddai'r teilwriaid a'r cryddion hynny ymysg y bechgyn ar y Clio yn gwneud yr holl ddillad ac esgidiau ar y llong. Roedd pob bachgen yn derbyn tair siwt, un i weithio, un ail orau ac un orau. Wrth adael y Clio am fywyd ar y môr, byddai pob bachgen yn derbyn casgliad cyflawn o ddillad a phac o angenrheidion i'w baratoi ar gyfer ei fywyd newydd. Byddai'r teilwriaid yn derbyn swm o arian ar gyfer y siwtiau yr oeddent wedi eu creu yn eu hamser ar y llong.

O'r 178 o fechgyn adawodd y llong o 1909-11, roedd 155 mewn gwaith parhaol, 9 mewn gwaith achlysurol, 3 wedi marw, 2 yn anhysbys a dim ond 9 'wedi eu darganfod i fod yn anfodddhaol'. Dengys y Roll of Honour o 1914 fod 88 wedi ymuno â'r fyddin.

Y CLIO

Ni welodd rai fywyd tu hwnt i'r Clio. Bu farw James Hemmett yn 11 oed 'wedi syrthio o uchder ar noson Awst 20fed, 1878', a syrthiodd John Herely o'r rigin i'w farwolaeth ar Fehefin 29ain, 1880. Roedd nifer o'r marwolaethau oherwydd salwch, sy'n ddealladwy o gofio'r amodau byw. Yn eu plith roedd George Tuckey a fu farw yn 14 oed ar Chwefror 15fed, 1881 o niwmonia difrifol, William Crewe fu farw yn 15 oed ar Ebrill 21ain, 1882 o ganlyniad i dwymyn teiffoid a William Thomas, bachgen 16 mlwydd oed fu farw yn Ysbyty Bangor ar Dachwedd 18fed, 1882 wedi dioddef o lid yr ymennydd. Roedd hefyd marwolaeth mwy amheus William Crook ar Ionawr 9fed, 1905 'o ganlyniad i ysgytiad ar yr ymennydd – canlyniad i ffyrnigrwydd gan fechgyn eraill'.



Ffon o goedyn Y Clio



Llun a botymau o got Capten Bray

Llyfryddiaeth

'The Clio 1877 – 1920 – A Study of the Functions of an industrial training ship in North Wales' – Emrys Wyn Roberts